

Edrych *Ymlaen*

Cynllun Strategaeth
Cyngor Llyfrau Cymru

CYNNWYS

1	Cyflwyniad	5
2	Rhagarweiniad	6
3	Cenhadaeth y Cyngor	7
4	Cyngor Llyfrau Cymru – Sefydliad Cenedlaethol	8
5	Y Diwydiant Cyhoeddi fel Busnes	10
6	Sicrhau Ystod o Gynnyrch Safonol	11
7	Cyrraedd Darllenwyr	13
8	Y Genhedlaeth Nesaf o Ddarllenwyr	15
9	Marchnadoedd Rhyngwladol	17
10	Cenhadaeth y Llywodraeth	18

1 CYFLWYNIAD

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Llyfrau baratoi Cynllun Gweithredol yn flynyddol i'w gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Braslun o raglen waith y Cyngor am y flwyddyn yw'r Cynllun hwn, ac mae'n nodi'r targedau y disgwylir i ni eu cyrraedd. Rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, sef cofnod hanesyddol o'n gwaith o fewn cwrmpawd blwyddyn ariannol. Mae'r dogfennau hyn i'w gweld ar wefan y Cyngor yn flynyddol.

Yn eu hanfod, dogfennau'r presennol yw'r rhain bob amser ac yn y cyfnod diwethaf fe welir dwy elfen yn rhedeg drwyddynt fel llinyn arian. Mae yna ewyllys gadarn i amddiffyn yr hyn a gyflawnwyd dros y blynyddoedd ond, yn bwysicach, fe welir hefyd fod gwir ddyhead i ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi – er mwyn y darllenwyr, yn sicr, ond hefyd i sicrhau diwydiant sy'n ffynnu ac yn hyfyw.

Wrth baratoi'r ddogfen 'Edrych Ymlaen', ein bwriad yw codi'n golygon i edrych heibio heriau blwyddyn ariannol, ceisio cryfhau'r seiliau i'r dyfodol, ac ymestyn i gyfeiriadau newydd gan geisio ystyried beth fydd anghenion y darllenwyr a sut orau i ddiwallu'r anghenion hynny am y cyfnod nesaf o bum mlynedd.


Wrth baratoi'r cynllun hwn, roeddem hefyd yn gallu pwysu ar arolwg hynod werthfawr o waith y Cyngor a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Review of Support for Books from Wales, Martin Rolph (Tachwedd 2014), a chyfeirir at yr adroddiad hwnnw yn y Cynllun. Yn ogystal, caiff nifer o argymhellion Adroddiad Rolph eu mabwysiadu yma.

Mae sawl un wedi ceisio darogan dyfodol y byd cyhoeddi, ac wedi ei chael yn dasg amhosibl. Bum mlynedd yn ôl roedd llawer yn proffwydo tranc y llyfr print poblogaidd, ond y mae'n dal i ffynnu. Yr hyn sy'n hollbwysig i'r Cyngor yw ein bod yn sicrhau diwydiant cryf sy'n hyblyg ac yn abl i addasu er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd y farchnad.

I gwblhau'r cylch, bydd y ddogfen hon yn bwydo'n ôl i'r drefn o baratoi'r Cynllun Gweithredol nesaf, gan fanylu yn y fan honno ar weithgareddau a gwasanaethau unigol a thargedau penodol fydd wedi eu gosod am y flwyddyn – ond bydd y cyfan yn asio gyda llwybr datblygiad y diwydiant o fewn y strategaeth hon.

Fel y gwyddom, mae dau ystyr i'r ymadrodd 'edrych ymlaen'; un yw'r ystyr llythrennol o edrych i gyfeiriad arbennig, ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn rhoi arweiniad i'r gwaith am y cyfnod nesaf; ond y mae yna hefyd ystyr o ddeisyfu'r sialens sy'n eich wynebu – ac yn sicr, rydym o'r farn fod y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn llawn brwdfrydedd a gobaith am y dyfodol.

Edrychwn ymlaen, felly, at gyfnod cyffrous arall i'r byd cyhoeddi yng Nghymru.



ELWYN JONES

Prif Weithredwr

Cyngor Llyfrau Cymru

2 RHAGARWEINIAD

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, a sefydlwyd yn 1963, wedi datblygu ac ehangu ei ddyletswyddau dros y blynyddoedd a bellach mae'n gonglfaen i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae ei weledigaeth yn glir, sef hyrwyddo a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn y ddwy iaith, ac mae ei swyddogaeth bresennol – fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol – wedi ei seilio ar yr amcanion yn y cyfansoddiad gwreiddiol, sef:

- Hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru ynghyd â deunydd cyffelyb arall.
- Hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydgyssylltu buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd.
- Cynorthwyo a chefnogi awduron trwy ddarparu gwasanaethau a thrwy ddyfarnu grantiau/comisiynau a sianelir trwy gyhoeddwr.
- Dosbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi deunydd o ansawdd da yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod y cynnyrch ar gael yn eang.

Prif nod yr amcanion uchod, wrth gwrs, yw diwallu anghenion y darllenwyr. Mae'r Cyngor a'r diwydiant cyhoeddi yn fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd ymateb i ofnion y farchnad a dyheadau'r cyhoedd, ac yn effro bob amser i gyfleoedd i'w galluogi i gyflawni'r gwaith hwnnw, nid yn unig o safbwynt cynnwys ond hefyd wrth ystyried patrymau darllen a fformatiau cyhoeddi.

Gwasanaethu'r Fasnach Lyfrau

Rhennir gwasanaethau a chymorth y Cyngor i'r fasnach lyfrau i dair prif ffrwd: Gwasanaethau Arbenigol, Dosbarthu Grantiau, a chynnal Canolfan Ddosbarthu hunangynhaliol. Mae'r elfennau hyn yn gwbl hanfodol i gynnal diwydiant cyhoeddi amrywiol, safonol a ffyniannus yma yng Nghymru.

Gwasanaethau Arbenigol

Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaethau ym maes dylunio, golygu, gwerthu a marchnata a gwybodaeth lyfryddol, ac mae'r adrannau hyn wedi cynorthwyo'r gweisg i sicrhau safonau uchel ac i ddatblygu a phroffesiynoli eu cynnyrch.

Oherwydd pwysigrwydd maes llyfrau plant a datblygu darllenwyr y dyfodol, fe geir hefyd adran sy'n canolbwyntio ar y maes allweddol hwn gan weithio'n agos gydag ysgolion a llyfrgelloedd i hyrwyddo llyfrau a chefnogi cynlluniau llythrennedd.

Dosbarthu Grantiau

Trwy ei Banelau Grantiau Cyhoeddi yn y ddwy iaith, mae'r Cyngor yn dosbarthu oddeutu £2.3m y flwyddyn er mwyn sicrhau ystod eang o ddeunydd print a digidol, gan gynnwys llyfrau a chylchgronau. Cynigir cymorth hefyd tuag at farchnata a chefnogaeth i swyddi yn y gweisg.

Y Ganolfan Ddosbarthu

Mae'r Ganolfan Ddosbarthu, a leolir yn Stad Ddiwydiannol Llanbadarn ar gyrion Aberystwyth, yn ganolfan un-man ar gyfer llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o ddiddordeb Cymreig; mae hi hefyd yn ddolen gyswllt hanfodol rhwng y cyhoeddwr a'r llyfrwerthwyr – ac, yn y pen draw, y darllenwyr. Mae'r Ganolfan (a gwefan Gwales) yn rhestru oddeutu 38,000 o gyhoeddiadau gwahanol, gyda rhyw 10,000 ohonynt mewn stoc ar unrhyw adeg.

Mae'r Ganolfan Ddosbarthu'n gwbl hunangynhaliol, a chaiff unrhyw elw ei ailfuddsoddi yng ngwaith y Ganolfan.

3 CENHADAETH Y CYNGOR

Mae cenhadaeth y Cyngor yn glir, ac ar ei symlaf gwelir mai ei nod yw hyrwyddo a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Dyna ei genhadaeth ers y dyddiau cynharaf, er i'w gyfrifoldebau ymestyn ac ehangu llawer dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

Mae canfyddiadau'r cyhoedd yn ogystal â'r diwydiant cyhoeddi ei hun wedi newid dros y cyfnod hwnnw, ac oherwydd hynny mae'r Cyngor wedi gorfod ymateb i ofynion y farchnad a dyheadau'r darllenwyr. Ond drwy'r cyfan mae egwyddorion creiddiol y Cyngor yn gyson â'r weledigaeth wreiddiol, ac yn cynnwys:

- Sicrhau ystod eang o ddeunydd darllen i'r darllenwyr
- Sicrhau deunydd o safon uchel o safbwynt cynnwys a chynhyrchu
- Cefnogi'r cyhoeddwy fel eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith
- Cynnig hyfforddiant i'r cyhoeddwy mewn meysydd penodol

- Cynnig gwasanaethau arbenigol i gefnogi gwaith y cyhoeddwy
- Cefnogi'r llyfrwerthwyr i gynnal busnesau ffyniannus
- Cynnig yr un gwasanaethau yn y ddwy iaith
- Sicrhau bod cynnwys yn cael ei gynnig mewn fformatiau sy'n apelio at y darllenwyr
- Hybu a hyrwyddo llyfrau o Gymru
- Hybu a hyrwyddo darllen yng Nghymru
- Datblygu hyfforddiant staff a sicrhau gweithlu hyblyg.


Bwriad y Cyngor yw parhau i barchu, diogelu a blaenoriaethu'r cyfrifoldebau sylfaenol hyn, yn y gred eu bod yn anhepgorol i ddatblygiad diwydiant cyhoeddi blaengar, grymus ac egniol a fydd yn gwbl abl i ateb gofynion y dyfodol.



4 CYNGOR LLYFRAU CYMRU – SEFYDLIAD CENEDLAETHOL

Mae'r Cyngor yn ei ystyried ei hun fel y prif gorff sy'n arwain, cefnogi a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Yn wir, teimlir bod y Cyngor yn cyfuno cyfrifoldebau nifer o gyrff amrywiol mewn gwledydd eraill – megis sefydliadau cyhoeddwy'r llyfrwerthwyr, asiantaethau nawdd i'r celfyddydau, a chyrff sy'n hyrwyddo llyfrau a darllen.

Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi meithrin ac ennill parch ei bartneriaid fel corff sydd nid yn unig yn deall eu hanghenion, ond sydd hefyd yn fodlon eu herio i sicrhau'r gorau i'r diwydiant a'r darllenwyr. Fel y nodwyd yn arolwg Martin Rolph, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Review of Support for Books from Wales, 'It is a well respected, stable organisation, having assembled, and continued to develop, formidable commitment, relevant skills and experience, and corporate memory provided by its staff, Council and various panel members and a track record of delivery'.



Mae'r sylwadau uchod yn un o'r rhesymau pam y mae cynifer o sefydliadau ac asiantaethau rhyngwladol wedi ymweld â'r Cyngor dros y blynyddoedd, gan ddangos diddordeb amlwg yn y gefnogaeth a roddir i gyhoeddi mewn iaith leiafrifol.

Gellir nodi'n glir, felly, bod y Cyngor bellach yn gorff gwirioneddol 'genedlaethol', gan ei fod yn gwasanaethu dwy iaith a dau ddiwylliant yn y Gymru gyfoes yr ydym i gyd yn rhan ohoni.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cynllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:

- Fel corff sy'n hyrwyddo a datblygu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, bydd y Cyngor yn ymrwymo i'w amddiffyn er lles darllenwyr yng Nghymru a thu hwnt.
- Mae'r Cyngor yn gorff blaengar sy'n ymaddasu ac yn ymateb yn rymus ac yn greadigol i ofynion y farchnad, a hynny mewn cyfnod eithriadol o ddeinamig sy'n llawn posibilïadau cyffrous yn ogystal â bygythiadau heriol.
- Yn ei rôl genedlaethol, mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â'r cyhoeddwy'r llyfrwerthwyr ac yn cynnig arweiniad iddynt o safbwynt datblygu diwydiant sy'n gryf, yn ddeinamig ac yn hyfyw.
- Fel corff cenedlaethol, mae angen i'r 'brand' fod yn glir ac eglur i bawb. Mae enw Cymraeg y sefydliad, Cyngor Llyfrau Cymru, yn llwyddo i wneud hynny, ond mae'r enw Saesneg, sef The Welsh Books Council, braidd yn amwys gyda llawer yn credu mai llyfrau Cymraeg yn unig a gefnogir gan y sefydliad. I'r perwyl hwn, rhoddir ystyriaeth i newid yr enw Saesneg i The Books Council of Wales gan ddangos ein hymrwymiad clir i'r ddwy iaith. Bydd hyn o gymorth gyda phroffil y Cyngor yn ogystal â'r gwaith o farchnata llyfrau.

- Fel corff sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Cyngor yn fodel o gorff sy'n nodi mai'r iaith Gymraeg yw iaith weinyddol y sefydliad gan ymhyfrydu yn y gwasanaeth dwyieithog o'r safon uchaf y mae'n ei gynnig i bawb. Rhagwelir y byddai'r Cyngor yn gallu rhannu o'i brofiad gyda sefydliadau eraill wrth iddynt hwythau ystyried eu gwasanaethau mewn Cymru ddwyieithog.
- Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ffodus o fod yn berchen ar ei bencadlys yn Aberystwyth (Castell Brychan) a'i warws fusnes (y Ganolfan Ddosbarthu) a'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny. Bydd y Cyngor yn cynnal awdit llawn o safon ei ystad, a'r angen i fuddsoddi yn yr adeiladau, er mwyn eu cynnal i'r safon angenrheidiol am y cyfnod nesaf.
- Bydd y Cyngor yn edrych yn ofalus ar ei strwythur rheoli presennol, sef Pwyllgor Gwaith a Chyngor, i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer corff sy'n gallu ymateb yn gyflym i gyfleoedd newydd a heriau busnes. Yn sgil unrhyw newid, bydd y Cyngor yn awyddus i amddiffyn y manteision a ddaw o ganlyniad i gysylltiad agos gyda llywodraeth leol a sefydliadau cysylltiol.
- Mae'r Cyngor bob amser yn awyddus i gydweithio'n agosach â phartneriaid cysylltiol megis llyfrgellwyr, cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr, awduron ac aelodau o Gyfeillion y Cyngor Llyfrau, er mwyn

lledaenu'r neges am lwyddiannau'r diwydiant i gynulleidfa newydd, gan fanteisio ar leoliad canolog ei swyddfeydd yng nghanolbarth Cymru i bwysleisio ei berthnasedd i Gymru gyfan.

- Bydd y Cyngor yn archwilio cyfleoedd i ddenu incwm ychwanegol ar gyfer prosiectau ym maes llyfrau a llythrennedd i ategu nawdd Llywodraeth Cymru, megis nawdd masnachol a cheisiadau ariannol i'r Loteri.
- Cyfeiriodd yr adroddiad Review of Support for Books from Wales at y modd y mae Llywodraeth Cymru yn nodi dosraniad ariannol y Cyngor yn ei Lythyr Dyfarnu, gan argymhell y dylid rhannu'r costau craidd rhwng costau uniongyrchol (costau gwasanaethau arbenigol) a'r gwir gostau craidd (costau rhedeg y Cyngor yn ganolog). Wedi cwblhau'r broses hon, bydd y Cyngor yn asesu lefel ei gostau gweinyddol gan eu cymharu â rhai cyrff eraill o fewn y sector celfyddydol.



5 Y DIWYDIANT CYHOEDDI FEL BUSNES

Mae'r Cyngor yn gyson wedi pwysleisio pwysigrwydd y diwydiant cyhoeddi i economi Cymru, a phwysigrwydd ein partneriaid o fewn y fasnach lyfrau fel busnesau hyfyw a llwyddiannus. Amcangyfrifir bod oddeutu 1,000 o bobl yn cael eu cyflogi o fewn y diwydiant, gan gynnwys awduron, golygyddion creadigol a golygyddion copi, dylunwyr a darlunwyr, argraffwyr a llyfrwerthwyr.

Mae'n ddiddorol hefyd edrych ar y map sy'n dangos lleoliadau'r prif gyhoeddwy'r a llyfrwerthwyr ar draws Cymru, gan sylweddoli pwysigrwydd y dosraniad daearyddol. Gwelir bod pob cornel o Gymru'n cael ei gwasanaethu gan y diwydiant gan gyfrannu at economi sawl ardal (gweler yr Atodiad o fapiau lleoliadau cyhoeddwy'r/llyfrwerthwyr).

O ran y Cyngor, y brif ffon fesur o safbwynt gwerthiant yw trosiant blynyddol y Ganolfan Ddosbarthu. Gyda throsiant o oddeutu £3m, mae'n werth nodi bod y trosiant yn gynyddol ddibynnol y dyddiau hyn ar gynlluniau penodol Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn deunydd darllen i'r ysgolion. Fel y dywed arolwg y Llywodraeth o'r gefnogaeth i lyfrau o Gymru, 'the Distribution Centre, as the biggest wholesaler of books in Wales, is critically important to publishing in Wales'; a nodir ymhellach, 'Some publishers and small bookshops would almost certainly not have survived without the services provided by the WBC's Distribution Centre'.

Po fwyaf llwyddiannus fydd y diwydiant, gan gynnwys y Cyngor ei hun, gorau oll fydd y cyfleoedd i ddenu cefnogaeth ariannol ychwanegol. Ac er na all hyn fyth gymryd lle unrhyw nawdd canolog, fe fydd yn sicr yn gymorth ar gyfer rhai datblygiadau.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cynllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:

- Gwerthfawrogi rôl allweddol cyhoeddwy'r, y Cyngor a'r llyfrwerthwyr o fewn y gadwyn gyflenwi gan sylweddoli, er bod blaenoriaethau'r partneriaid yn gallu amrywio, mai system gyd-ddibynnol sydd gennym a bod angen ei pharchu.
- Pwysleisio cyfraniad y diwydiant cyhoeddi nid yn unig i faes darllen a llythrennedd, ond hefyd i economi Cymru.
- Gweld y Ganolfan Ddosbarthu fel endid sy'n ganolog i lwyddiant y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru a chydabod ei phwysigrwydd i'r fasnach, gan sylweddoli bod y Ganolfan Ddosbarthu a'r diwydiant yn gyffredinol yn wynebu cyfnod heriol yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, a bod yna effaith gadarnhaol i gynlluniau megis ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru ym maes llythrennedd a darllen.
- Sylweddoli bod hunangyhoeddi bellach yn rhan o'r patrwm cyhoeddi yng Nghymru, ac ystyried manteision a goblygiadau hynny i'r Ganolfan Ddosbarthu.
- Gyda busnes y Ganolfan Ddosbarthu mor ganolog i ddyfodol y diwydiant cyhoeddi, dylid sefydlu Panel Busnes i oruchwylio'r gweithgareddau ac adrodd i'r Prif Swyddogion.
- Datblygu systemau technoleg gwybodaeth i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'r rhanddeiliaid a sylweddoli pwysigrwydd buddsoddi i sicrhau rhwydweithiau busnes diogel a chryf, gan sefydlu tîm technegol mewnol i arwain y gwaith.
- Cynnal gwaith ymchwil i fesur cyfraniad y diwydiant i economi Cymru.

6 SICRHAU YSTOD O GYNNYRCH SAFONOL

Yn ei rôl ganolog o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldeb wrth sicrhau ystod o ddeunydd darllen safonol ar gyfer darllenwyr. I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yn cynnig cefnogaeth ariannol, gwasanaethau arbenigol a hyfforddiant i'r cyhoeddwr – a'r cyfan gyda'r bwriad o godi safonau a datblygu'r diwydiant.

Mae arolwg Llywodraeth Cymru o gefnogaeth i lyfrau o Gymru yn crynhoi hyn fel a ganlyn:

'Some newer publishers in Wales would not have come into existence or survived or grown without . . . the services provided free or heavily subsidised by WBC.'



'Existing publishers would not have grown the numbers of titles published, the numbers sold and the numbers of staff they employ without the various types of WBC support.'

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cynllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:



- Pwysleisio rôl allweddol y Cyngor o fewn y diwydiant cyhoeddi i sicrhau deunydd safonol ac amrywiol ar gyfer darllenwyr, gan amddiffyn y buddsoddiad ariannol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith.
- Cynnal y gefnogaeth i ddeunydd Cymraeg a Saesneg, gan gyfrannu'n bositif tuag at bontio rhwng dau ddiwylliant Cymru.
- Sicrhau ystod o ddeunydd darllen – o'r clasuron i ffuglen boblogaidd, ac o farddoniaeth i gyfrolau ffeithiol – i ddiwallu anghenion a diddordebau darllenwyr Cymru yn y ddwy iaith.
- Pwysleisio'r angen am ddeunydd o safon, gan gefnogi'r cyhoeddwr – drwy grantiau a hyfforddiant – i'w galluogi i sicrhau'r nod yma.
- Gosod cyfrifoldeb ar bob cyhoeddwr i sicrhau cydbwysedd derbyniol o fewn eu rhestr gyhoeddi er mwyn diwallu gofynion darllenwyr yn ogystal â sicrhau gwerthiant digonol i gynnal busnesau hyfyw.
- Gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor – trwy ei Banelau Grantiau Cyhoeddi – i ofalu am y cydbwysedd rhwng y rhestrau hyn, gan ystyried gofynion y farchnad a sicrhau nad oes gormodedd o lyfrau'n cael eu cyhoeddi mewn rhai meysydd, gan orgyflenwi'r angen.
- Gweld galw o du'r cyhoedd am ddeunydd digidol ochr yn ochr â deunydd print, gan hyrwyddo'r ddau gyfrwng. Gellir hefyd ragweld y bydd y Panelau Grantiau Cyhoeddi'n debygol o dderbyn rhagor o geisiadau am ddeunydd darllen digidol yn unig yn y dyfodol (cefnogir cylchgronau digidol eisoes) ac ailargraffiadau ar ffurf ddigidol.
- Cynnig rhaglen o hyfforddiant i'r cyhoeddwr gyda'r nod o ddatblygu sgiliau'r gweithlu er lles y diwydiant.

- Yn sgil y trwyddedau newydd ar gyfer cylchgronau o Gymru – yn Saesneg (2015) ac yn Gymraeg (2016) – byddwn yn eu cefnogi i ehangu eu hapêl, ymestyn eu cyrhaeddiad, ac ystyried llwyfannau aml-blatfform.
- Rhoi pwyslais ar gefnogi rhwydweithiau cydweithio o fewn y diwydiant cyhoeddi – megis Cwllwm Cyhoeddwy, y consortiwm cyhoeddwy Cymraeg – er budd yr holl bartneriaid.
- Annog trafodaeth bellach ar faes cyhoeddi academiaidd yng Nghymru, gan wyntyllu strwythurau ariannu ynghyd â chyfrifoldebau amrywiol bartneriaid i gynnal a datblygu'r maes.
- Ystyried a blaenoriaethu rhaglen o waith ymchwil a fydd yn sail i ddatblygiadau'r dyfodol, gan ddatblygu'r berthynas a sefydlwyd gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru.



7 CYRRAEDD DARLLENWYR

Yn dilyn yn naturiol o'r sylwadau uchod, lle rhoddwyd y pwyslais ar ystod a safon y cynnyrch, mae'n hollbwysig fod yr un sylw ac ymdrech yn cael eu rhoi i'r gwaith o hyrwyddo'r deunydd a sicrhau ei fod yn dod i sylw'r cyhoedd. Dyma un o'r prif heriau yn y cyfnod nesaf, gan fod cynifer o gyfryngau eraill hefyd yn cystadlu am yr un sylw.

Un o brif fanteision y diwydiant cyhoeddi yw'r cydweithio a geir rhwng y partneriaid – boed yn awduron, cyhoeddwy, llyfrwerthwyr, llyfrgellwyr neu'r Cyngor ei hun – gan mai ein nod ni i gyd yw dod â'r cynnyrch i sylw'r darllenwyr. Mae cyfle o'r newydd, felly, i'r partneriaid gydweithio er lles y diwydiant.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cynllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:

- Annog cyhoeddwy i adnabod eu marchnad, a'u cefnogi drwy'r system grantiau i ddarparu ar gyfer y farchnad honno.
- Cadarnhau ein hymrwymiad i'r siopau llyfrau annibynnol, gan werthfawrogi eu rôl ganolog wrth hyrwyddo a hybu llyfrau.
- Parhau â'n cysylltiad agos gyda siopau cadwyn, gan gydweithio i ehangu eu dewis o lyfrau o Gymru.
- Paratoi ymgyrchoedd/deunydd hyrwyddo penodol mewn cydweithrediad â'r siopau llyfrau (annibynnol a chadwyn), llyfrgelloedd a'r byd addysg.
- Adnabod cyfleoedd i weithio gyda lleoliadau gwerthu eraill megis archfarchnadoedd, siopau crefft, orielau a chanolfannau ymwelwyr, gan baratoi cynlluniau penodol ar eu cyfer.
- Gwerthfawrogi nad drwy siopau llyfrau yn unig y mae cwsmeriaid bellach yn prynu deunydd darllen, gan ddeall yr ysgogiad i brynu drwy'r we ac effaith hyn ar ymgyrchoedd hyrwyddo.
- Gwerthfawrogi, yn ogystal, bod cyfrifoldeb arnom i ymgyrraedd at ddarlennwyr anfoddog a'u cyflwyno i fyd llyfrau a sicrhau ystod o ddeunydd addas ar eu cyfer.
- Manteisio ar gyfleoedd i gyflenwi llyfrau i ddosbarthwyr y tu allan i Gymru.
- Asesu targedau gwerthiant y cyhoeddwy yn sgil datblygiadau cyhoeddi digidol (gyda chyfle i gynyddu'r gwerthiant yn sylweddol mewn rhai meysydd).
- Parhau i ddatblygu teulu gwefannau Gwales i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r defnyddwyr ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd glir a syml.



- Sicrhau ein bod yn cyflwyno gwybodaeth lyfryddol gywir a chyflawn at ddefnydd y fasnach yn ogystal â'r cyhoedd, a bod yr wybodaeth honno'n sail i ymgyrchoedd hyrwyddo.
- Cydweithio a datblygu'r berthynas gyda llyfrgelloedd i sicrhau sylw i lyfrau o Gymru, gan werthfawrogi rôl ganolog llyfrgelloedd wrth gyrraedd darllenwyr. Ac yn sgil prinder staff arbenigol o fewn llyfrgelloedd, archwilio ffyrdd o hwyluso gwaith y llyfrgellwyr o ddewis ac archebu llyfrau.
- Adolygu ac addasu holl gynlluniau hyrwyddo'r Cyngor i sicrhau eu bod yn apelio at y darllenwyr, gan fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd ein partneriaid i ddatblygu'r cynlluniau hynny.
- Cydweithio â phartneriaid o fewn y cyfryngau i sicrhau sylw i lyfrau, gan roi pwyslais penodol ar lyfrau Saesneg o Gymru.
- Arolygu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau ein bod yn lledaenu gwybodaeth am lyfrau o Gymru ac yn creu cyswllt â'r cyhoedd.
- Parhau i gynnal gwaith ymchwil ym maes targedu darllenwyr a phatrymau prynu llyfrau, a fydd o gymorth wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gydweithio a rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid.



8 Y GENHEDLAETH NESAF O DDARLLENWYR

Mae'r Cyngor Llyfrau yn ymwybodol iawn o'r newidiadau a welwyd o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan sylweddoli eu bod yn aml yn adlewyrchu newidiadau byd-eang. Cofleidiwyd y symudiad i'r maes digidol, ac er na fu'r datblygiadau hyn mor gyflym ag yr oedd rhai'n proffwydo, y mae serch hynny'n ddatblygiad pellgyrhaeddol. Bu newid hefyd yn y patrwm prynu, gyda dewisiadau heblaw'r siop lyfrau draddodiadol ar gael i'r cwsmer.

Rydym yr un mor ymwybodol bod yn rhaid paratoi ar gyfer cenhedlaeth newydd o ddarlennwyr, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad i ystod o ddeunydd darllen mewn ffurfiau amrywiol; rhaid, felly, roi sylw i'r cynnwys yn ogystal â'r fformatiau cyhoeddi.

Mae'r Cyngor wedi rhoi cryn sylw i faes llyfrau plant yn y cyfnod diwethaf, gan gomisiynu adroddiad i'r maes cyfrwng Cymraeg a gyfeiriai'n glir at yr her o gynnal diddordeb plant yn eu harddegau mewn darllen llyfrau Cymraeg. Cafwyd hefyd adroddiad ar batrymau darllen a phrynu llyfrau Cymraeg ymysg pobl ifanc. Ar yr ochr Saesneg, sicrhawyd buddsoddiad ychwanegol yn y maes ac o'r egin hwnnw sicrhawyd dwy gyfres fer o lyfrau deniadol yn ogystal â gweld sefydlu un cyhoeddwr newydd.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cynllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:

- Drwy gyfrwng y system grantiau, byddwn yn annog a sicrhau cyfleoedd i gyhoeddwr ddatblygu cynnyrch newydd a chyffrous i gyrraedd darlennwyr newydd.
- O safbwynt llyfrau Cymraeg i'r plant lleiaf, dylai'r Panel Grantiau Cyhoeddi edrych ar yr ystod a'r nifer o lyfrau sy'n cael eu cyhoeddi, gan sicrhau nad ydym yn gorrwytho'r farchnad.
- Y farn gyffredinol yw fod y cydbwysedd rhwng llyfrau Cymraeg gwreiddiol ac addasiadau yn weddol agos ati ar hyn o bryd, ond mae angen cadw golwg gofalus ar y sefyllfa i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn ein hawduron cynhenid law yn llaw â sicrhau'r manteision ariannol/hyrwyddo a ddaw o gefnogi addasiadau. Os teimlir bod gormod o lyfrau i'r plant lleiaf yn cael eu cynhyrchu, bydd angen edrych yn ofalus ar y cydbwysedd rhwng teitlau gwreiddiol ac addasiadau.
- Mae'n amlwg ein bod yn colli darlennwyr yn yr oedran 11+, felly mae angen i'r Cyngor ac Adran Addysg y Llywodraeth roi sylw i'r her sy'n ein hwynebu, ac arwain trafodaeth ar y maes pwysig hwn.



- Rhoddodd y Cyngor groeso i'r datblygiadau diweddar ym maes llyfrau Saesneg i blant. Dylid sicrhau arian i gynnal y momentwm fel bod plant a phobl ifanc o Gymru yn cael detholiad o lyfrau Saesneg sy'n berthnasol i'w diwylliant a'u bywydau.
- Sicrhau parhad cyffrous ym maes datblygiadau digidol, gan sicrhau dewis ar gyfer y darllenwyr ond heb danseilio'r galw parhaus am ddeunydd print.
- Rhoi ystyriaeth lawn i'r fformatiau y bydd darllenwyr yn dymuno eu darllen yn y dyfodol – gan gynnwys llyfrau print, e-ddarllenwyr ac iPad, yn ogystal â ffonau symudol – a fformatiau eraill a ddatblygir yn y dyfodol.
- Daw'n gynyddol amlwg nad oes gan nifer o athrawon yr wybodaeth angenrheidiol am faes llyfrau plant i'w galluogi i arwain darllenwyr at ddeunyddiau addas ar gyfer eu hoedran a'u cefndir. Mae goblygiadau difrifol i hyn o safbwynt yr ymdrech i hybu llythrennedd, a bydd y Cyngor yn awyddus i fod yn rhan o unrhyw drafodaeth.
- Mae'r Cyngor yn croesawu'r pwyslais ar hybu llythrennedd o fewn y cwricwlwm, gan weld y deunydd darllen hamdden a gefnogir ganddo yn ategu ymdrechion athrawon, yr ysgolion a'r consortia addysg. Cred y Cyngor hefyd fod gan y colegau a'r prifysgolion gyfrifoldeb yn hyn o beth wrth baratoi myfyrwyr ar gyfer yr ystafell ddosbarth.
- Dylai llyfrau Saesneg o Gymru (clasurol a chyfoes) gael lle blaenllaw o fewn y cwricwlwm addysg i sicrhau bod disgyblion Cymru yn ymwybodol o'u treftadaeth lenyddol, gan sylweddoli'r angen am dorri'r cylch hwn gyda'r darpar fyfyrwyr sy'n astudio yn ein colegau a'n prifysgolion.
- Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r cynlluniau hyrwyddo llyfrau plant – fel y gwnaeth yn ddiweddar yn achos y Clwb Llyfrau – yn ogystal â'r cynlluniau hyrwyddo darllen a gefnogir gan Adran Addysg y Llywodraeth.



9 MARCHNADOEDD RHYNGWLADOL

Er bod gwaith y Cyngor Llyfrau wedi ei wreiddio'n gadarn yma yng Nghymru, rydym hefyd yn sylweddoli potensial maes cyhoeddi i gyflwyno Cymru a'i phobl i gynulleidfa ehangach.

Bu gan ein llenorion a'n beirdd rôl bwysig i'w chwarae fel lladmeryddion ar ran Cymru ar hyd yr oesoedd, ac rydym yn gweld cyfle o'r newydd i artistiaid y diwydiant cyhoeddi gyfrannu mwy eto i'r maes hwn. Gallai hyn fod trwy ymweld â gwyliau llenyddol penodol, neu fel rhan o raglenni diwylliannol ehangach.

Wrth baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r Cyllun Strategaeth wedi ei sylfaenu ar y canlynol:

- Er ein bod yn llawn sylweddoli rôl y Cyngor fel cyd-bartner o fewn y diwydiant cyhoeddi, rhoddir sylw o'r newydd i gyflwyno gwaith y sefydliad ei hun i gynulleidfa ehangach.
- Credwn fod y buddsoddiad a wnaed dros amser ym maes llenyddiaeth Saesneg o Gymru i'w weld yng nghynnwys a diwyg y llyfrau a gynhyrchir. Yr un cam pwysig i'w gymryd yn awr yw rhoi ystyriaeth i hyrwyddo a marchnata i sicrhau'r sylw dyladwy i'r cynnyrch y tu hwnt i'r ffin. Y farchnad amlwg i'w chyrraedd gyntaf yw Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, a byddwn yn trafod gydag arbenigwyr yn y maes i benderfynu sut orau i gyrraedd y nod.

- Mae'n bwysig hefyd fod Cymru'n cael sylw ar y llwyfan rhyngwladol, ac rydym yn gryf o'r farn fod gan ein llenyddiaeth le canolog yn y strategaeth ehangach i sicrhau hyn. Byddwn yn awyddus i drafod gyda'r Llywodraeth y posibilrwydd o sefydlu presenoldeb unwaith eto yn Ffeiriau Llyfrau Llundain a Frankfurt, sef y ddwy wyl lyfrau ryngwladol mwyaf dylanwadol o safbwynt y farchnad o Gymru.
- Fel yn y gorffennol, byddwn hefyd yn chwilio am gyfleoedd newydd i greu partneriaethau a chydweithio ag eraill i sicrhau bod diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael sylw mewn gwledydd tramor.



10 CENHADAETH Y LLYWODRAETH

Ar ddechrau'r Cynllun Strategaeth, nodwyd cenhadaeth Cyngor Llyfrau Cymru fel sefydliad cenedlaethol sydd am weld diwydiant cyhoeddi cryf a ffyniannus – un sy'n esblygu a datblygu'n barhaus i'w alluogi i ddiwallu gofynion darllenwyr.


Ochr yn ochr â hyn mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i gyfrannu at agenda Llywodraeth Cymru gan gyfrannu at nifer o feysydd penodol. Roedd arolwg y Llywodraeth o'r gefnogaeth i lyfrau o Gymru yn nodi'n gywir nad oes cyfeiriad at waith y Cyngor yn rhaglen Llywodraeth Cymru, ond y mae hefyd yn nodi bod gweithgareddau'r sefydliad yn cyfrannu at nifer o feysydd megis diwylliant a threftadaeth Cymru, cynnal a datblygu cyfleoedd gwaith, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma rai o'r meysydd y cred y Cyngor ei fod yn cyfrannu atynt:

- Cyflwyno diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ystod eang o ddeunydd darllen amrywiol sy'n cyflwyno hanes Cymru a'i phobl
- Hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ei chyflwyno fel iaith fyw a pherthnasol
- Hybu llythrennedd a darllen fel sgiliau hanfodol bywyd
- Cyfrannu at raglen sy'n mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd drwy sicrhau deunydd darllen sy'n amrywiol ac yn gynhwysol
- Hyrwyddo iechyd pobl Cymru gan bwysleisio budd darllen i les yr unigolyn
- Cyfrannu at economi Cymru drwy gefnogi diwydiant cynhenid a'i gyrhaeddiad ledled Cymru
- Cyfannu diwylliannau Cymru drwy gynnig cefnogaeth a gwasanaethau ar gyfer y ddwy iaith
- Cefnogi'r sector addysg drwy ddarparu deunydd darllen sy'n atodol i'r deunyddiau addysgol a noddir gan y Llywodraeth
- Hybu Cymru dramor drwy ei llenyddiaeth gyfoethog a bri ei hawduron
- Cyfrannu at y disgwrs cenedlaethol drwy gefnogi cylchgronau materion cyfoes a llenyddol ynghyd â deunydd academiaidd
- Cefnogi deunydd digidol a hybu arloesedd yn y maes




Llyfrwerthwyr yng Nghymru Booksellers in Wales



Am restr llawn o lyfrwerthwyr o Gymru ewch i www.yfasnachlyfrau.org.uk

For a full list of booksellers in Wales go to www.wbti.org.uk

Cyhoeddwr yng Nghymru Publishers in Wales



Am restr llawn o gyhoeddwr o Gymru ewch i www.yfasnachlyfrau.org.uk

For a full list of publishers in Wales go to www.wbti.org.uk